Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru

Adran Rheoli Risg Gweithredol

Disgrifiad Swydd – U133

Teitl: Rheolwr Gwylfa Arloesi a Gwella

Rôl: Rheolwr Gwylfa A

Diben : Cynorthwyo gyda datblygu offer a gweithdrefnau gweithredol

Atebol i: Rheolwr Gwylfa A – Tîm Arloesi a Gwella

Cyfrifoldebau Allweddol

1. Mynychu digwyddiadau gweithredol yn ôl y gofyn.
2. Cynorthwyo gyda datblygu offer a gweithdrefnau gweithredol.
3. Canfod ardaloedd ar gyfer gwella a darparu atebion eraill.
4. Sganio'r amgylchedd allanol i sicrhau fod y Gwasanaeth yn adolygu datblygiadau o fewn sectorau eraill.
5. Dilyn adolygiadau a gwerthusiadau, darparu adroddiadau i hysbysu'r sefydliad.
6. Cynorthwyo gyda datblygu prosiectau.
7. Cysylltu gyda rhanddeiliaid mewnol ac allanol i sicrhau fod datblygiad yn gyson ag anghenion y Gwasanaeth.
8. Cynorthwyo gyda datblygu'r gyllideb ymchwil a datblygu.
9. Cyfrannu a chynrychioli'r tîm mewn cyfarfodydd, fforymau a gweithgorau.
10. Cynllunio a chadeirio cyfarfodydd i helpu gyda'r broses gwneud penderfyniadau.
11. Canfod anghenion personol ar gyfer cynnal sgiliau, gwybodaeth a dealltwriaeth i sicrhau cymhwysedd a gwelliant parhaus.
12. Arwain, rheoli a hyrwyddo pob agwedd ar degwch a chydraddoldeb.
13. Arwain, rheoli a hyrwyddo pob agwedd ar Iechyd a Diogelwch.

Tasgau/Swyddogaethau Allweddol

1.	Arwain gwaith timau ac unigolion i gyflawni eu hamcanion. Cynllunio gwaith timau ac unigolion. Asesu gwaith timau ac unigolion. Darparu adborth i dimau ac unigolion ar eu gwaith.	**WM1**
2.	Cynnal gweithgareddau i fodloni anghenion. Cynnal gweithgareddau gwaith i fodloni anghenion. Cynnal amodau gwaith cynhyrchiol, diogel ac iach. Gwneud argymelliadau ar gyfer gwelliannau i weithgareddau gwaith.	**WM2**
3.	Rheoli gwybodaeth ar gyfer ei gweithredu. Casglu'r wybodaeth sydd ei hangen. Hysbysu a chynghori eraill. Cynnal cyfarfodydd.	**WM3**
4.	Cymryd cyfrifoldeb am berfformiad effeithiol. Cymryd cyfrifoldeb am berfformiad personol. Sefydlu a chynnal cysylltiadau gwaith effeithiol gyda phobl. Datblygu eich sgiliau eich hun i wella eich perfformiad.	**WM4**

5. Cynorthwyo datblygiad timau ac unigolion. Cyfrannu at ganfod anghenion datblygu. Cyfrannu at gynllunio datblygiad timau ac unigolion. Cyfrannu at weithgareddau datblygu. Cyfrannu at asesu pobl yn erbyn amcanion datblygu. **WM5**

6. Archwilio ac adrodd ar ddigwyddiadau er mwyn hysbysu arferion i'r dyfodol. Casglu gwybodaeth i gefnogi archwiliad o ddigwyddiad. Adrodd ar ganfyddiadau a chasgliadau archwiliad. **WM6**

7. Arwain a chefnogi pobl i ddatrys digwyddiadau gweithredol. Cynllunio camau i fodloni anghenion y digwyddiad. Rhoi camau ar waith i fodloni amcanion sydd wedi'u cynllunio. Dod â cham gweithredol digwyddiad i ben. Trafod gyda phobl yn dilyn digwyddiadau. **WM7**

8. Cynorthwyo'r defnydd effeithiol o adnoddau. Gwneud argymelliadau ar gyfer y defnydd o adnoddau. Cyfrannu tuag at reoli adnoddau. **WM9**

9. Caffael, storio a chyhoeddi adnoddau er mwyn darparu gwasanaeth. Monitro a chaffael adnoddau i fodloni gofynion y gwasanaeth. Monitro storio adnoddau corfforol. Rheoli materion adnoddau i gefnogi darparu gwasanaeth. **WM10**

10. Ymateb i berfformiad gwael o fewn eich tîm. Cynorthwyo aelodau o'r tîm sydd â phroblemau sy'n effeithio ar eu perfformiad. Cyfrannu at roi gweithdrefnau disgyblaeth a chwyno ar waith. **WM11**

11. Hyrwyddo pob agwedd ar gydraddoldeb a thegwch yn y gweithle a sicrhau y glynir ar Gynllun Iaith Gymraeg y Gwasanaeth ar bob adeg.

12. Hyrwyddo Iechyd a Diogelwch yn y Gweithle yn unol â Deddf Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith 1974, Rheoliadau Rheoli Iechyd a Diogelwch 1999 a deddfwriaeth arall o'r fath fel sy'n briodol i sefyllfa waith yr unigolyn. Yn fwy penodol, rhaid i chi gymryd gofal rhesymol am eich iechyd a diogelwch chi ac eraill a allai gael eu heffeithio gan eich gweithredoedd gan unioni, cyn belled ag sydd ymarferol resymol neu adrodd i'r uwch reolwyr, unrhyw sefyllfa waith a allai achosi perygl difrifol neu gyfagos. Mae canllawiau mwy penodol ar gyfrifoldebau unigolion ar gael yn OPPD/-14 [Iechyd a Diogelwch] - HSGN 2 [Polisi Iechyd a Diogelwch Cyffredinol].